



Gan fod cymaint o gyfleoedd yn digwydd ledled y byd, rydyn ni'n gwybod bod marchnad neu arddangosfa yn rhywle na fyddwn wedi'i chynnwys yn ein Rhaglen o Ddigwyddiadau Rhyngwladol y byddech wedi eisiau mynd iddi. Dyna pam y cafodd y rhaglen Cymorth Ymweliadau Datblygu Busnes Dramor (OBDV) ei chreu er mwyn ichi allu cyrraedd y marchnadoedd hyn a chipio busnes trwy'ch ymdrechion eich hun.

Ar gyfer cwmnïau o Gymru sydd heb ddigon o arian i gynnal prosiectau rhyngwladol, mae OBDV ar gael i'ch helpu i gyrraedd marchnadoedd y byddai'n amhosibl ichi eu cyrraedd fel arall. Unig ddiben y rhaglen yw'ch helpu i gael busnes newydd, nid i wasanaethu contractau sydd gennych eisoes.

### Sut fedrwch chi elwa?

Gall OBDV helpu gyda 50% o gostau ymweliad. Y grant lleiaf yw £500 a'r mwyaf yw £10,000. Mae hyn yn gweithio mewn dwy ffordd.

### 1. Ymweld â Marchnad

Help i un cynrychiolydd fesul cwmni, gyda chyfraniad at deithio a chynhaliath.

### 2. Arddangosfa

Help i ddau gynrychiolydd fesul cwmni, gyda chyfraniad at:

- deithio a chynhaliath
- lle i'ch stondin (heb gynnwys ffitiadau a chelfi)
- cludo nwyddau

Amod gwneud cais am OBDV yw na fyddwch wedi gwneud unrhyw ymrwymiad cyn hynny a bydd angen ichi brofi nad oes gennych yr arian ac y gallai ddod â budd i'ch busnes. Dim ond y rheini sy'n gymwys all gael OBDV.

"Fel rhan o'n Strategaeth Rhyngwladol, roedd angen dod i ddeall y marchnadoedd newydd roeddem wedi'u targedu'n well. Gwnaeth arian yr OBDV ein helpu i gyrraedd 5 marchnad newydd, er gwaetha'n prinder arian ni, yn 2019. O ganlyniad, rydym yn masnachu â 3 o'r 5 marchnad, cyfran pwysig o'n twf rhyngwladol o 29% yn 2019."

Bill Smith-Coats, Cyfarwyddwr Wholebake

**Busnes Cymru | Business Wales**

Os ydych yn meddwl y gallech elwa ar y cymorth hwn, cysylltwch â Busnes Cymru ar 03000 6 03000 neu anfonwch e-bost i [bwyd-food@gov.wales](mailto:bwyd-food@gov.wales) [businesswales.gov.wales/foodanddrink](http://businesswales.gov.wales/foodanddrink) [@BwydaDiodCymru](https://twitter.com/BwydaDiodCymru)